

# GWEITHIO GYDA'N GILYDD I DDIOGELU POBL



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

## Rhannu Gwybodaeth i Ddiogelu Plant ac Oedolion

### 01

**COFIWCH NAD YW'R RHEOLIAD CYFFREDINOL AR DDIOGELU DATA (GDPR), DEDDF DIOGELU DATA 2018** a'r gyfraith hawliau dynol yn rhwystrau rhag rhannu gwybodaeth pan fo cyfiawnhad dros wneud hynny, ond yn hytrach eu bod yn cynnig fframwaith i sicrhau bod gwybodaeth bersonol am unigolion byw yn cael ei rhannu mewn ffordd briodol.

### 02

**BYDDWCH YN AGORED AC YN ONEST** o'r cychwyn â'r unigolyn (a/neu ei deulu lle bo'n briodol) ynghylch pam, beth, sut a gyda phwy y gallai gwybodaeth gael ei rhannu, a gofynnwch am eu caniatâd oni bai ei bod yn anniogel neu'n amhriodol gwneud hynny.

### 03

**GOFYNNWCH AM GYNGOR** gan ymarferwyr eraill neu'ch arweinydd rheoli gwybodaeth os oes unrhyw amheuaeth ynghylch rhannu'r wybodaeth dan sylw, heb ddatgelu pwy yw'r unigolyn os yn bosibl.

### 04

**LLE BYNNAG Y BO'N BOSIB, DYLLID CAEL CANIATÂD CYN RHANNU GWYBODAETH** a pharchu dymuniadau'r rhai sy'n gwrthod rhoi caniatâd. Dan GDPR a Deddf Diogelu Data 2018, gallwch rannu gwybodaeth heb ganiatâd os, yn eich barn chi, bod sail gyfreithlon dros wneud hynny, er enghraifft lle bo perygl i ddiogelwch. Bydd angen i chi seilio eich penderfyniad ar ffeithiau'r achos.

Pan fyddwch yn rhannu gwybodaeth neu'n gofyn am wybodaeth bersonol gan rywun, dywedwch yn glir ar ba sail rydych yn gwneud hynny. Os na fyddwch yn cael caniatâd, cofiwch o bosib na fydd yr unigolyn yn disgwyl i'r wybodaeth gael ei rhannu.

### 05

**YSTYRIWCH DDIOGELWCH A LLESIANT:** dylai'ch penderfyniad ynghylch rhannu gwybodaeth fod yn seiliedig ar ddiogelwch a llesiant yr unigolyn ac eraill a allai gael eu heffeithio gan eu gweithredoedd.

### 06


**ANGENRHEIDIOL, CYMESUR, PERTHNASOL, DIGONOL, CYWIR, PRYDLON A DIOGEL:** sicrhewch fod yr wybodaeth sy'n cael ei rhannu gennych yn angenrheidiol at y diben, ei bod yn cael ei rhannu gyda'r unigolion sydd ei hangen yn unig, ei bod yn gywir ac yn gyfredol, ei bod yn cael ei rhannu yn brydlon ac yn cael ei rhannu yn ddiogel (gweler yr egwyddorion).

### 07

**CADWCH GOFNOD** o'ch penderfyniad a'r rhesymau drosto – boed y penderfyniad i rannu gwybodaeth neu beidio. Os byddwch yn penderfynu ei rhannu, cofnodwch yr hyn a rannwyd, gyda phwy ac i ba ddiben.

**MANYLION CYSWLLT LLEOL**

# Pryd a sut i rannu gwybodaeth



## Rhannu gwybodaeth:

- » Penderfynwch faint o wybodaeth i'w rhannu.
- » Cofiwch wahaniaethu rhwng ffeithiau a barn.
- » Sicrhewch eich bod yn rhoi'r wybodaeth gywir i'r unigolyn cywir.
- » Sicrhewch, lle bynnag y bo'n bosib, eich bod yn rhannu'r wybodaeth mewn ffordd ddiogel.
- » Rhowch wybod i'r unigolyn bod yr wybodaeth wedi cael ei rhannu, os nad oedd yn ymwybodol o hyn, cyn belled na fyddai hynny'n creu neu'n cynyddu'r perygl o niwed.

Cofnodwch y penderfyniad ynghylch rhannu gwybodaeth a'ch rhesymau yn unol â gweithdrefnau lleol neu rai eich sefydliad.

**Os oes unrhyw bryderon bod plentyn neu oedolyn mewn perygl, dylid dilyn y gweithdrefnau diogelu perthnasol ar unwaith.**

**Gofynnwch am gyngor os byddwch yn ansicr beth i'w wneud ar unrhyw adeg, a sicrhewch fod canlyniad y drafodaeth yn cael ei gofnodi.**